# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DDYDD GWENER 8 EBRILL AM 10.00AM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| J P Curtice | P Downing | V M Evans |
| P Lloyd | K E Marsh | H M Morris |
| T H Rees | | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Lyndsay Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| S Woon | Gwasanaethau Democrataidd. |

115 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd C L Philpott.

116 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

117 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2016 yn gofnod cywir.

118 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

119 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT – ALD.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag ALD.

Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn i'r Cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor a ymatebodd yn briodol.

Amlinellodd ALD y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais ALD i adnewyddu trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac i ALD dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch cydymffurfio â'r gorchymyn llys.

120 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - DNR.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â DNR.

Amlinellodd DNR y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais DNR am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac i DNR dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

121 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - NM.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag NM.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch a ymatebodd yn briodol.

Amlinellodd NM y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais NM am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac i NM dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

122 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - JW.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â JW.

Amlinellodd JW, ar y cyd â GH, y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Darllenodd y Cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor gynnwys dau eirda a oedd yn cefnogi cais JW.

**PENDERFYNWYD** y dylid **GWRTHOD** cais JW am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Wedi ystyried y sylwadau a wnaed a'r geirdaon a gyflwynwyd, nid oedd aelodau yn fodlon bod JW yn berson addas a phriodol ac ystyriwyd ei bod hi'n angenrheidiol defnyddio'r canllawiau sy'n gofyn am o leiaf 3 blynedd heb gollfarnau cyn ystyried caniatáu trwydded i JW.

123 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU GYFYNGEDIG I GERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - MBC.**

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch nad oedd MBC wedi dod i'r cyfarfod a chadarnhaodd na dderbyniwyd unrhyw gyfathrebiad gan MBC yn gofyn i'r mater gael ei ohirio.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MBC.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD:**

1. Y dylid ymdrin â'r mater yn absenoldeb MBC;
2. Y dylid **GWRTHOD** cais MBC am drwydded yrru gyfyngedig i gerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Ni chysylltodd MBC i ddweud nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod nac yn gofyn i'r achos gael ei ohirio. Wedi ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad, nid oedd yr aelodau'n fodlon bod MBC yn berson addas a phriodol.

124 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - AJR.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag AJR.

Amlinellodd AJR y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Eglurodd y Cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor gynnwys y llythyr at AJR, dyddiedig 13 Tachwedd 2015.

**PENDERFYNWYD** y dylid **GWRTHOD** cais AJR am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>**

Nid oedd aelodau'n fodlon bod AJR yn berson addas a phriodol oherwydd amlder a nifer y collfarnau gyrru ac nid oedd digon o amser heb unrhyw gollfarnau wedi mynd heibio i fodloni'r aelodau na fyddai AJR yn aildroseddu.

**LLYWYDDODD Y CYNGHORYDD P DOWNING (CADEIRYDD DROS DRO)**

125 **<u>DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ARA.</u>**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag ARA.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Amlinellodd ARA y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais ARA am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac y dylid rhoi llythyr rhybuddio i ARA yn ei atgoffa mai ei gyfrifoldeb ef yw gwirio bod gan y cerbyd yswiriant priodol.

**LLYWYDDODD Y CYNGHORYDD P M MATTHEWS (CADEIRYDD)**

126 **<u>DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU GYFYNGEDIG I GERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - EJLI.</u>**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag EJLI.

Amlinellodd EJLI y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **GWRTHOD** cais EJLI am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

O ystyried collfarnau a rhybudd blaenorol EJLI a'r sylwadau a wnaed, nid oedd aelodau'n fodlon bod EJLI yn berson addas a phriodol ac ystyriwyd ei bod hi'n angenrheidiol defnyddio'r canllawiau sy'n gofyn am o leiaf 3 blynedd heb gollfarnau cyn ystyried caniatáu trwydded i EJLI.

## 127 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - CAW.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â CAW.

Amlinellodd CAW y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais CAW am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac i CAW dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.59 am

**CADEIRYDD**